

# Adolygiad o Gapiau Diogelu Ail Ddosbarth ar gyfer 2019

Cap ar brisiau stampiau Ail Ddosbarth ar gyfer llythyrau safonol, llythyrau mawr a pharseli hyd at 2kg

---

Y ddogfen wedi ei marcio'n gyfrinachol

**DATGANIAD TERFYNOL:**

Dyddiad Cyhoeddi: 17 Ionawr 2019

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

3

# 1. Trosolwg

- 1.1 **Mae gwasanaethau post yn hanfodol i economi'r DU, ac maen nhw'n ffordd bwysig iawn o gyfathrebu i lawer o bobl.** Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn gwerthfawrogi gwasanaethau post. Mae pobl hŷn a'r rheini heb fynediad i'r we yn arbennig yn ddibynol ar y gwasanaeth post er mwyn cyfathrebu.<sup>1</sup>
- 1.2 **Mae gan Ofcom ddyletswyddau cyfreithiol i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n effeithlon ac sy'n gynaliadwy'n ariannol.** Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth cyffredinol yn mynnu bod y Post Brenhinol, fel y darparwr, yn danfon ac yn casglu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos, a pharseli bum diwrnod yr wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf ar draws y DU.
- 1.3 **Mae'r proses rheoleiddio presennol ar gyfer gwasanaethau post ar waith ers mis Mawrth 2012.** Ar y pryd, roedd y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol yn gwneud colled, ac roedd perygl na fyddai'r Post Brenhinol yn darparu'r gwasanaeth cyffredinol yn y dyfodol. Er mwyn helpu i gynnal y gwasanaeth cyffredinol, rhoddodd Ofcom fwy o hyblygrwydd masnachol a gweithredol i'r Post Brenhinol er mwyn ymateb i'r heriau hyn.
- 1.4 Ar yr un pryd, **fe wnaethom osod capiau diogelu ar brisiau adwerthu'r Post Brenhinol ar gyfer y "cynnyrch Ail Ddosbarth" canlynol:**
  - cap diogelu ar lythyrau safonol Ail Ddosbarth; a
  - chap 'basged' ar gyfer llythyrau mawr Ail Ddosbarth a pharseli bach a chanolig sy'n pwysu hyd at 2kg<sup>2</sup>.
- 1.5 **Mae'r capiau wedi cael eu dylunio er mwyn sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol sylfaenol a fforddiadwy ar gael** i ddefnyddwyr ac i fusnesau bach; fel bod defnyddwyr gwasanaethau post a defnyddwyr bregus yn arbennig, yn cael eu gwarchod rhag cynnydd parhaus mewn prisiau; fel bod y Post Brenhinol yn gallu cael cyfradd enillion masnachol rhesymol ar y cynnyrch sydd wedi'i ddiogelu, a bod effaith y capiau diogelu ar ryddid priso'r Post Brenhinol mor isel â phosib er mwyn osgoi effeithio'n ormodol ar ei allu i ariannu cynlluniau drwyddi draw.
- 1.6 **Mae'r capiau diogelu presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019.** Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau ar gyfer rheoleiddio'r cynnyrch Ail Ddosbarth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2024.

## Beth rydym ni wedi'i benderfynu – yn gryno

**Mae capiau diogelu yn dal i fod yn angenrheidiol.** Mae'r Post Brenhinol yn parhau i fod â monopoli ar ddanfon llythyrau fwy neu lai, ac mae ganddo gyfran uchel iawn o'r sector parseli bach a chanolig. Felly, ni allwn ddibynnu ar gystadleuaeth yn unig i amddiffyn defnyddwyr rhag cynnydd sylweddol mewn prisiau.

<sup>1</sup> Ofcom, 2018. *Residential Postal Tracker 2018*, Gorffennaf 2017-Mehefin 2018. QC3\_1 a QG1.

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0034/118996/Residential-Postal-Tracker-Q3-2017-Q2-2018-tables.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0034/118996/Residential-Postal-Tracker-Q3-2017-Q2-2018-tables.pdf).

<sup>2</sup> Mae un cap ar gyfer llythyrau safonol, a chap 'basged' ar wahân ar gyfer parseli a llythyrau mawr, ac mae bob cap yn cynyddu'n unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr bob blwyddyn.

**Mae lle i rywfaint o gynnydd, wrth barhau i gadw prisiau'n fforddiadwy.** Mae ein tystiolaeth yn dangos na fyddai cynnydd o 5% mewn termau real i bob cap yn gwneud y cynnyrch Ail Ddosbarth yn anfforddiadwy, i ddefnyddwyr yn gyffredinol nac i'r mwyafrif o ddefnyddwyr a all fod yn fregus. Ond byddai cynnydd mwy yn anfforddiadwy, gan y byddai'n niweidio rhai defnyddwyr bregus.

**Bydd codi lefel y cap ar lythyrau safonol yn helpu i leihau effaith y capiau diogelu ar ryddid prisiau'r Post Brenhinol er mwyn osgoi effeithio'n ormodol ar ei allu i ariannu cynlluniau drwyddi draw.**

Mae ein dadansoddiad yn dangos os nad ydym ni'n codi lefel y cap ar *lythyrau safonol*, yna gall y rhyddid sydd gan y Post Brenhinol i godi prisiau leihau o fewn dwy neu dair blynedd. Ar hyn o bryd, mae'r Post Brenhinol yn prisiau cynnyrch yn sylweddol o dan lefel y cap *basged*, sy'n rhoi digon o hyblygrwydd prisiau iddo dros y cynnyrch sydd yn y fasedd.

**Rydym wedi penderfynu codi lefel y cap ar lythyrau safonol 5% mewn termau real i 65c<sup>3</sup>; ac i gadw lefel bresennol y cap basged fel y mae ar hyn o bryd.** Bydd y capiau hyn yn sicrhau bod y cynnyrch Ail Ddosbarth yn aros yn fforddiadwy i ddefnyddwyr, yn ogystal â rhoi hyblygrwydd masnachol priodol i'r Post Brenhinol. Bydd pob cap yn codi yn ôl chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr ("CPI") ar 1 Ebrill bob blwyddyn, hyd nes eu bod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024 – neu cyn hynny, os penderfynwn fod angen.

*Crynodeb syml lefel uchel yw hwn yn unig. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.*

## **Mae gan y Post Brenhinol gyfran sylweddol o'r farchnad llythyrau a pharseli**

- 1.7 Mae marchnad lythyrau'r DU yn dirywio. Mae nifer y llythyrau wedi gostwng tua 17% ers cyflwyno'r capiau yn 2012/13, sef 3% bob blwyddyn. Mae nifer y llythyrau â stamp y Post Brenhinol wedi gostwng yn gyflymach byth, gyda niferoedd a refeniw [yn gostwng tua 11% a 8%] y flwyddyn ar gyfartaledd.
- 1.8 Hefyd yn y cyd-destun hwn, mae ein hasesiad yn dangos bod y Post Brenhinol â monopoli danfon llythyrau mwy neu lai. Mae gan y Post Brenhinol gyfran uchel o'r sector parseli bach a chanolig. Mae ganddo hefyd rwydwaith mynediad helaeth a brand cyfarwydd iawn. Gyda'i gilydd, mae hyn yn rhoi cryn dipyn o bŵer prisiau iddo.
- 1.9 Allwn ni ddim dibynnu ar gystadleuaeth yn unig i amddiffyn defnyddwyr rhag cynnydd sylweddol mewn prisiau, felly mae capiau diogelu yn angenrheidiol. Hefyd, nid ydym o'r farn bod amodau'r gystadleuaeth wedi newid mewn modd a fyddai'n achosi newid i strwythur neu hyd a lled y capiau.

---

<sup>3</sup> Bydd y terfyn uchaf ar y cap yn cael ei osod ar 65.2c o Ebrill 2019 ymlaen, fodd bynnag rydym yn nodi bod y Post Brenhinol ar hyn o bryd yn gosod prisiau fesul ceiniog gyfan ar y cynnyrch Ail Ddosbarth. Felly, wrth ddisgrifio lefel y cap yn y ddogfen hon, rydym yn talgrynnu i'r geiniog agosaf (65c).

## Cadw cap diogelu er mwyn amddiffyn cwsmeriaid bregus

- 1.10 Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y prisiau'n fforddiadwy i ddefnyddwyr preswyl ac i fusnesau bach wrth osod y capiau diogelu. Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar allu defnyddwyr a allai fod mewn sefyllfa fregus<sup>4</sup> i fforddio'r cynnyrch Ail Ddosbarth.
- 1.11 Nid yw mesur fforddiadwyedd post yn syml. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn dangos er mai canran isel o incwm y mae pobl yn ei wario ar bost, fe all problemau fforddiadwyedd godi mewn amgylchiadau lle mae'n rhaid i ddefnyddwyr wneud toriadau ar hanfodion eraill er mwyn gallu anfon post, neu'n dewis peidio ag anfon post y maen nhw'n ei ystyried yn hanfodol. Rydym wedi ystyried ystod o dystiolaeth ar fforddiadwyedd, a'r effeithiau tebygol ar ddefnyddwyr, er mwyn dod i farn ar lefel briodol ar gyfer lefelau'r capiau diogelu.
- 1.12 Ychydig iawn sydd wedi newid mewn sawl maes ers i ni gynnal ein hasesiad fforddiadwyedd yn 2013.<sup>5</sup> Canran isel o incwm pobl sy'n cael ei wario ar wasanaethau post yn dal i fod, ac mae ein hymchwil yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr yn cael unrhyw broblemau â fforddiadwyedd. Fodd bynnag, mae incwm gwario gwirioneddol wedi cynyddu'n gymedrol ers 2013, ac mae hynny hefyd yn wir ar gyfer y bobl sy'n ennill y cyflogau isaf. Mae hyn yn awgrymu bod fforddiadwyedd wedi gwella.
- 1.13 Yn ein barn ni, mae'r dystiolaeth yn awgrymu na fyddai cynnydd o 5% mewn termau real uwchlaw lefelau presennol y capiau yn gwneud y cynnyrch Ail Ddosbarth yn anfforddiadwy i ddefnyddwyr yn gyffredinol, nac i fwyafrif o'r bobl a all fod yn fregus. Mae'r niwed posib i rai defnyddwyr bregus yn ogystal â thystiolaeth o newidiadau ers 2013 yn dangos y dylai cynnydd o fwy na 5% gael ei ystyried yn anfforddiadwy ar hyn o bryd.

## Dylai unrhyw newidiadau i'r cap ar lythyrau safonol sicrhau bod gan y Post Brenhinol ddigon o hyblygrwydd masnachol i ymateb i'r bygythiadau i'r gwasanaeth cyffredinol

- 1.14 Rydym wedi canfod nad yw lefelau presennol y capiau wedi rhwystro'r Post Brenhinol rhag gwneud elw masnachol rhesymol ar y cynnyrch sy'n cael ei ddiogelu.
- 1.15 Ers i'r capiau diogelu gael eu cyflwyno, mae'r Post Brenhinol wedi dewis cadw prisiau'r cynnyrch yn is na lefelau'r capiau yn gyson. Pan gafodd y capiau eu cyflwyno yn 2012/13, 55c oedd y pris mwyaf a oedd yn cael ei ganiatáu ar gyfer pris stamp Ail Ddosbarth. Penderfynodd y Post Brenhinol beidio â gosod y pris ar lefel y cap, gan osod pris stamp Ail Ddosbarth ar 50c yn lle hynny. Roedd hynny'n rhoi hyblygrwydd o tua 10% iddo o ran y pris. Lefel y cap ar hyn o bryd yw 60c, ac mae pris stamp Ail Ddosbarth yn 58c ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod gan y Post Brenhinol lai na 5% o hyblygrwydd ar gyfer y cap ar lythyrau safonol ar hyn o bryd, er nad yw'r Post Brenhinol ond wedi cynyddu prisiau rhyw

---

<sup>4</sup> Wrth asesu fforddiadwyedd, rydym wedi ystyried pob un o'r grwpiau canlynol, yr ydym ni'n eu categoreiddio fel defnyddwyr a allai fod mewn sefyllfa fregus: (i) dros 65 oed; (ii) heb fynediad i'r rhyngwrwyd; (iii) yn byw mewn ardaloedd gwledig; a (iv) grŵp economaidd-gymdeithasol C2DE.

<sup>5</sup> Ofcom, 2013. *Fforddiadwyedd y Gwasanaethau Post Cyffredinol*

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0014/10445/affordability.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0014/10445/affordability.pdf).

geiniog neu ddwy ar gyfartaledd ers 2013. O'i gymharu â hynny, mae gan y Post Brenhinol hyblygrwydd o tua 29% ar hyn o bryd ar gyfer y cap ar llythyrau mawr a pharseli hyd at 2kg, ac mae hynny'n rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd masnachol iddo.

- 1.16 Er bod y lefel o hyblygrwydd masnachol y mae'r cap basged yn ei ganiatáu yn sylweddol ac yn gynyddol, mae lefel yr hyblygrwydd y mae'r cap llythyrau safonol yn ei ganiatáu wedi lleihau dros amser. Ers 2013, mae'r Post Brenhinol yn gyffredinol wedi rhoi'r cynnydd mewn prisiau blynyddol ar waith ar neu o gwmpas y Mynegai Prisiau Manwerthu ("RPI") ar gyfer llythyrau safonol a llythyrau mawr.<sup>6</sup> Mae chwyddiant RPI wedi bod yn uwch na chwyddiant CPI yn gyffredinol, sy'n golygu bod prisiau llythyrau Ail Ddosbarth wedi cynyddu ryw ychydig bob blwyddyn mewn termau real (o'i gymharu â CPI). Os yw lefelau'r cap llythyrau safonol yn aros yr un fath, mae'n debyg y bydd hyblygrwydd masnachol y Post Brenhinol i allu cynyddu prisiau yn unol â chwyddiant RPI wedi lleihau o fewn dwy neu dair blynedd. Mae ein dadansoddiad yn dangos y byddai codi lefel y cap llythyrau safonol o 5% mewn termau real yn caniatáu digon o hyblygrwydd ac yn cynyddu ei allu i ymateb i ddatblygiadau annisgwyl yn y farchnad a allai beryglu cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol.
- 1.17 Fel y nodwyd yn y *Diweddariad Monitro Blynyddol ar y Farchnad Bost: Y Flwyddyn ariannol 2017/18*<sup>7</sup> ("Diweddariad Monitro Blynyddol 2017/18"), rydym yn parhau i ystyried y bydd y gwasanaeth cyffredinol yn debygol o barhau'n gynaliadwy yn ariannol yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae gwahanol fathau o sefyllfaoedd negyddol posib a all gael effaith negyddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Byddwn yn parhau i fonitro'r rhain yn agos.
- 1.18 Gan ystyried hyn i gyd, rydym yn credu bod codi lefel y cap ar llythyrau safonol 5% mewn termau real a chadw'r cap basged yr un fath yn rhoi hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol er mwyn gallu gwneud cyfradd enillion masnachol rhesymol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi effaith sylweddol ar y gwasanaeth cyffredinol.

## Ein casgliadau

- 1.19 Yn sgil canfyddiadau ein hasesiad fforddiadwyedd, rydym wedi penderfynu codi **lefel y cap ar llythyrau safonol Ail Ddosbarth 5%** mewn termau real. Mae hynny'n golygu y bydd terfyn uchaf y cap, sy'n 60c ar hyn o bryd, yn codi i 65c o fis Ebrill 2019 ymlaen, ac yn codi bob blwyddyn ar ôl hynny, yn unol â'r CPI. Mae hyn yn golygu y gall y Post Brenhinol brisio llythyrau safonol Ail Ddosbarth hyd at uchafswm o 65c o 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020. Bydd y cap yn parhau i gynyddu yn unol â'r CPI ar 1 Ebrill bob blwyddyn hyd 31 Mawrth 2024.
- 1.20 Bydd hyn yn ailsefydlu rhywfaint o'r hyblygrwydd prisio a oedd gan y Post Brenhinol o dan y cap ar llythyrau safonol Ail Ddosbarth yn 2012, a fydd yn gwella gallu'r Post Brenhinol i ymateb i ddatblygiadau annisgwyl yn y farchnad. Dylai codi lefel y cap ar llythyrau safonol

---

<sup>6</sup> RPI sy'n cael ei ddefnyddio gan y Post Brenhinol i fesur chwyddiant yn ei ddadansoddiad o'r sector post.

<sup>7</sup> Ofcom, 2018. *Diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost, Y flwyddyn ariannol 2017/18*.

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0023/128282/Diweddariad-monitro-blynyddol-ar-y-farchnad-bost-2017-18.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/128282/Diweddariad-monitro-blynyddol-ar-y-farchnad-bost-2017-18.pdf).

ofalu bod gan y Post Brenhinol ddigon o hyblygrwydd prisio, ac nad yw'r cap yn cael unrhyw effaith ehangach ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol.

- 1.21 Rydym wedi penderfynu peidio addasu lefel y **cap ar gyfer llythyrau mawr a pharseli hyd at 2kg Ail Ddosbarth**, a fydd yn parhau i gynyddu bob blwyddyn yn unol â'r CPI ar 1 Ebrill. Mae gan y Post Brenhinol hyblygrwydd prisio sylweddol o tua 29% yn barod o dan y cap hwn, ac felly nid yw cynyddu lefel y cap ymhellach yn angenrheidiol, er gwaethaf canlyniadau ein hasesiad fforddiadwyedd.
- 1.22 Bydd y capiau'n dod i rym ar 1 Ebrill 2019 ac yn gorffen ar 31 Mawrth 2024 – neu cyn hynny, os penderfynwn fod angen.